CO17205 Mount Pleasant Lane – Cyffyrdd Dyrchafedig

Disgrifiad o Gynnig y Cynllun

Mae'r Cyngor wedi gofyn i fesurau arafu traffig gael eu cynnwys fel rhan o'r cytundeb cynllunio sy'n gysylltiedig â gwaith datblygu preswyl lleol sy'n mynd rhagddo ar Mount Pleasant Lane, Llanrhymni, bydd y gwaith hwn yn cael ei ariannu'n llawn gan y datblygwr.

Mae'r project arfaethedig a ddangosir ar y cynllun ymgynghori a atodir, yn cynnwys ail osod wyneb y lôn gerbydau, ailadeiladu'r droedffordd ar hyd ochr ddwyreiniol y ffordd a chyflwyno cyffyrdd dyrchafedig. Bydd cyflwyno'r mesurau hyn yn lleihau cyflymder cerbydau yn ardal y datblygiad preswyl arfaethedig a gwella'r cyfleusterau i gerddwyr.

Mae gofyn ar i'r cynllun gyflawni amod cynllunio ar gais cynllunio 16/1443/MJR y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar ei gyfer ar 5 Ionawr 2017. Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar elfen twmpath ffordd y cynllun yn unig, i gydymffurfio â Rheoliadau Priffyrdd (Twmpathau Ffordd) 1999.

Rhagor o Wybodaeth am fesurau rheoli traffig

Nodweddion Arafu Traffig. Mae'r term hwn yn cyfeirio at fesurau rheoli traffig ffisegol penodol sy'n gorfodi gyrrwyr i leihau cyflymder cerbydau. Mae'r rhain yn cynnwys twmpathau ffordd, clustogau arafu, byrddau arafu, rhwystrau culhau'r ffordd, rhwystrau igam-ogamu, pyrth arafu, cylchfannau a nodweddion tebyg eraill.

Cyffordd Fwrdd. Mae cyffordd fwrdd yn debyg i dwmpath ffordd. Dyrchefir y gyffordd gyfan i greu platfform, sy'n lleihau cyflymder cerbydau. Mae darparu cyffordd fwrdd yn creu cyffordd ddiogelach drwy arafu'r holl gerbydau sy'n agosáu at y gyffordd gan felly gynnig allanfa ddiogelach o bob rhan o'r gyffordd.

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i weithredu cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.

A Proud Capital
Prifddinas Falch
CARDIFF
CAERDYDD

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/transportprojects ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 029 2087 3289 i ofyn am gopi papur. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau am y cynnig rhowch wybod i ni erbyn **09/02/2018**



The Council is consulting on the proposal to implement a traffic management scheme based on the plan shown.

Further details about this consultation are available at Cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail TransportProjects@cardiff.gov.uk or telephone 029 2087 3289 to request a paper copy. If you would like to make any comments about this proposal please let us know by **09/02/2018**

A Proud Capital
Prifddinas Falch
CARDIFF
CAERDYDD